

Cyngor Proffesiynol

Covid-19: Rhestr wirio dychwelyd i'r ysgol

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Covid-19: Rhestr wirio dychwelyd i'r ysgol

Yn dilyn cyfnod ble bu'r mwyafrif o ysgolion ar gau yn sgil argyfwng y coronafeirws, mae UCAC yn cynnig y rhestr wirio ganlynol i aelodau wrth i ysgolion baratoi i ail-agor yn llawn, er mwyn ceisio sicrhau'r trefniadau mwyaf priodol a diogel i bawb.

Wrth ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, mae UCAC o'r farn ei fod yn allweddol bod y Llywodraeth yn parhau i sicrhau fod pob un o'r pum egwyddor sylfaenol a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg wedi'u diwallu:

- Diogelwch, a lles meddyliol, emosiynol, a chorfforol myfyrwyr a staff
- Cyfraniad parhaus i'r ymdrech a'r strategaeth genedlaethol i frwydro yn erbyn lledaeniad Covid-19
- Hyder rhieni, staff a myfyrwyr – yn seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth – fel y gallant gynllunio ymlaen llaw
- Y gallu i flaenoriaethu dysgwyr ar adegau allweddol, gan gynnwys y rheini o gefndiroedd difreintiedig
- Cysondeb â fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud penderfyniadau, i sefydlu arweiniad i gefnogi mesurau fel pellhau, rheoli presenoldeb a chymau amddiffyn ehangach

Os nad ydynt, mae'n glir nad oes modd i athrawon ddychwelyd i'r gweithle.

Er mwyn sicrhau diogelwch a bod hyder wrth ddychwelyd i'r ysgol, mae UCAC o'r farn bod angen sicrhau bod ateb cadarnhaol i'r isod wrth ystyried ail-agor ysgolion.

Cynllunio

1. A yw'r Ysgol yn cydymffurfio â holl ofynion canllawiau'r Llywodraeth a'r gofynion meddygol diweddaraf? Yn benodol:
 - a) bod angen sicrhau y cyswllt lleiaf gyda phobl a'r grwpiau cyswllt tra yn yr ysgol. Rhaid i'r ysgol wneud pob dim posib i leihau cyswllt a chymysgu. Mewn ysgolion uwchradd dylai'r ysgol sicrhau pellter cymdeithasol o 2 fetr rhwng pob aelod o staff a rhwng staff a disgyblion yn yr ystafell ddosbarth. Gyda disgyblion iau dylid osgoi cyswllt wyneb wrth wyneb a cheisio cadw pellter o 1 metr

b) oes sicrwydd bod cyflenwad digonol o PPE angenrheidiol i'r ysgol yn unol â'r canllawiau?

c) a yw'r capasiti wedi ei wirio'n effeithiol?

ch) a yw hawl staff i dderbyn CPA ac egwyl resymol wedi ei warantu?

d) nid oes gofyn i staff na disgyblion symud o le i le heb fod angen yn ystod y dydd

2. A oes ystyriaeth resymol wedi bod o ddichonolrwydd polisïau cyfredol yr ysgol, e.e. disgyblaeth, gwisg?
3. A oes asesiadau risg cynhwysfawr yn eu lle?
4. A ydych wedi cael y cyfle i ystyried cynnwys yr asesiadau risg?
5. A yw'r holl drefniadau ymarferol o ran dychwelyd i'r gweithle yn ddiogel yn eu lle? A ydych wedi derbyn prawf ohonynt? e.e. glanweithdra digonol, profi offer trydanol.
6. A yw'r trefniadau glanhau yn glir, a darpariaeth y gwasanaeth glanhau yn amlwg?
7. A oes trefniadau penodol addas ar gyfer disgyblion ag ADY (yn ôl yr angen)?
8. A oes trefniadau penodol ar gyfer addysgu CA4 a CA5 yn ddiogel?
9. A yw'r trefniadau grwpiau cyswllt yn glir?

Athrawon yn dychwelyd i'r safle

10. A oes rhaglen hyfforddiant addas yn ei le cyn bod disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol, er mwyn sicrhau bod gan yr holl staff ddealltwriaeth drylwyr o'r systemau, polisïau a gofynion newydd (gweithdrefnau glanhau, symud trwy'r ysgol, offer a rennir e.e. ipad, offerynnau cerdd, beth i'w wneud mewn achos o salwch, dealltwriaeth o asesiadau risg ac ati)?
11. A oes protocol o beth ddylai ddigwydd mewn argyfwng? A yw pob aelod o staff wedi derbyn copi?
12. A oes canllawiau clir sy'n nodi beth sy'n digwydd pan fo disgybl neu aelod o staff yn dangos symptomau o COVID-19?
13. A yw pawb yn ymwybodol o sut i gael mynediad at gwnsela neu gefnogaeth arbenigol (i ddisgyblion a/neu i staff) yn ôl yr angen?

Disgyblion yn dychwelyd i'r safle

14. A oes darpariaeth ddigonol o PPE addas i bawb (gan gynnwys mygydau, sgriniau wyneb a menig)?
15. A oes arwyddion yn nodi'n glir y disgwyliadau sydd o ddisgyblion a staff ar y safle, e.e. proses mynediad, glanweithdra?
16. A oes arwyddion yn dangos y mynedfeydd, allanfeydd a'r llwybrau cerdded penodol (gan gynnwys cyfeiriad y 'traffig' os oes system un ffordd yn ei lle)?
17. A yw lloriau'r coridorau wedi eu marcio'n addas er mwyn nodi pellter cymdeithasol, gan gynnwys cyfeiriad y 'traffig' os yn berthnasol?
18. A yw pob ystafell ddosbarth yn sicrhau fod pob disgybl yn wynebu'r blaen?
19. A oes darpariaethau glanweithdra digonol, sy'n hygyrch i bawb?
20. Oes cyflenwadau digonol o gynhyrchion hylendid hanfodol fel hylifau diheintio, tyweli dwylo ac ati? A ydynt yn hygyrch i bawb yn ôl yr angen?
21. A yw'r trefniadau teithio a gollwng plant, cychwyn a diweddu diwrnod ysgol yn sicrhau bod modd cadw pellter ac yn ddiogel i bawb?
22. A yw'r trefniadau cinio yn sicrhau fod modd cadw grwpiau cyswllt gyda'i gilydd ac i sicrhau nad oes yna gyswllt gyda grwpiau cyswllt eraill.
23. A oes trefniadau amser egwyl digonol sy'n sicrhau bod egwyl wedi'i hamseru ar adegau gwahanol i bob grŵp a bod lleiafswm o gyswllt rhwng disgyblion?
24. A yw'r trefniadau ymarfer corff yn glir ac yn effeithiol?
25. A yw'r trefniadau o ran y defnydd o offer yn glir, e.e. cyfrifiaduron, celfi gegin.

Os oes unrhyw bryder yn codi cofiwch gysylltu ag un o Swyddogion Maes UCAC:

- Ioan Rhys Jones, Swyddog Maes y Gogledd, ioan@ucac.cymru
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, gareth@ucac.cymru

- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain, mererid@ucac.cymru
- Ywain Myfyr, Swyddog Maes Cynorthwyol, ywain@ucac.cymru



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

 facebook.com/AthrawonCymru  twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru